Cyfoeth Naturiol Cymru
Cyfarfod o'r Bwrdd
4 Medi 2013

Teitl y Papur:	**DIWEDDARIAD O'R RHAGLEN NEWID**
Cyfeirnod y Papur:	**Papur NRW B (O) 28.13**
Paper wedi'i Noddi gan: **Paper wedi'i Ysgrifennu gan:**	**Niall Reynolds a Liz Davis** **Richard Ninnes**

Pwrpas y Papur:	Diweddaru'r Bwrdd ar y Rhaglen Newid.
Argymhelliad:	Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r diweddariad.

Effaith:	Mae'r Rhaglen Newid yn galluogi CNC i gyflawni budd effeithiau a chanlyniadau gwell ar draws ei holl swyddogaethau a'i gylch gwaith. **Effaith ar yr Amgylchedd:** **Effaith ar yr Economi:** **Effaith ar y Gymuned:** **Effaith ar Wybodaeth:**

Crynodeb:

Adroddodd ein diweddariad diwethaf ar y cynnydd wrth drawsnewid i CNC erbyn diwedd Ebrill 2013. Rydym yn awr yn gallu adrodd ar gynnydd gyda datblygu gweithlu a diwylliant CNC ac adeiladu ei allu i fedru sefyll ar ei draed ei hun.

Mae'r papur byr yma yn cyflwyno darlun a fydd yn rhoi arolwg o raddfa a natur y dasg o orffen adeiladu a llunio CNC.

Pwnc

1. Mae CNC yn parhau i fod yn ei ddyddiau cynnar fel sefydliad unigol gyda hunaniaeth wahanol i'r cyrff blaenorol hynny. Mae'r Tîm Datblygu Sefydliadol a Rheoli Pobl wedi cychwyn ar y rhaglen o ddatblygu sefydliadol ac mae'r Tîm Trawsnewid wedi bod yn arwain y gwaith i ddatblygu gallu CNC i sefyll ar ei draed ei hun. Mae'r gwaith archwilio a chynllunio cychwynnol hwn wedi rhoi i ni syniad da yn awr o raddfa a natur y dasg i adeiladu sylfaen o ble gellir datgloi potensial CNC a chyflawni mwy dros Gymru. Mae'r rhaglen yn un fawr, gymhleth ac mae angen ei chwblhau mewn amser byr.

Cefndir

2. Rydym wedi dod â'r holl waith i ddatblygu gallu CNC i sefyll ar ei draed ei hun a chreu un sefydliad i Raglen Newid trosfwaol. Mae hwn wedi'i strwythuro i gyfres o raglenni pob un gyda strwythur llywodraethu sy'n cael ei arwain gan aelod o'r Tim Gweithredol. Bydd y Tîm Gweithredol yn ymroi un cyfarfod bob mis i gyflawni swyddogaeth Bwrdd Rheoli'r Rhaglen Newid.

3. Mae'r Tim Arweinyddiaeth newydd gwblhau 'Sgwrs' gyda staff, a chyfarfod pob Tîm er mwyn dechrau esbonio cenhadaeth CNC a chael adborth am y sefydliad a'r materion sy'n codi.

4. Rydym yn amcangyfrif bod CNC angen cyfeirio o leiaf 10 i 20% o amser ei staff i helpu creu galluoedd newydd ac amsugno effeithiau'r newid er mwyn cynnal parhad y busnes.

5. Ae y cyfan, mae'r gwaith i ddatblygu gallu CNC i sefyll ar ei draed ei hun yn agosáu at gwblhau'r cam diffinio a chynllunio. Rydym wedi dechrau peth gweithredu sylweddol, gyda chynnyrch eisoes wedi'u cyflawni.

6. Mae'r tîm Trawsnewid wedi gweithio gyda'r Timau Corfforaethol a Chyllid er mwyn datblygu mecanwaith ar gyfer cipio buddion.

7. Rydym yn cynllunio Adolygiad Porth ffurfiol o'r Rhaglen newid yn yr hydref.

Risgiau

8. Y prif risgiau yr ydym yn eu rheoli ar hyn o bryd yw:

- Gorffen gwasanaethau gan AA yn gynnar, sy'n cael ei ymgorffori yn Defra a chydwasanaethau Llywodraeth DU
- Costau uchel gwahanu neu weddilliol yn codi o orffen gwasanaethau AA a CC.
- Gallu o fewn y busnes i ddefnyddio adnoddau er mwyn cyflawni newid a rheoli effaith newid ochr yn ochr â chynnal parhad y busnes.
- Cydlynu cyfres gymhleth o raglenni o ben i ben.
- Cydymffurfio gydag amserlenni'r broses gaffael.

Goblygiadau Ariannol

9. Nid oes dim o'r papur gwybodaeth hwn. Fodd bynnag, mae yna gyfraniadau ariannol sylweddol eu hangen i gyflawni'r rhaglen.

Materion Cyfeithiol a Chydymffurfio

10. Nid oes dim o'r papur gwybodaeth hwn, er dylid nodi risgiau'r rhaglen sy'n cynnwys rheolau caffael a goblygiadau cyfreithiol sy'n gysylltiedig ag ailgynllunio prosesau a rheoli gwybodaeth.

Cyfathrebu

11. Yn dilyn y 'Sgwrs' ym mis Gorffennaf, rydym yn awr yn canolbwyntio ar gyfathrebu ac ymgysylltu ynglŷn â'r Rhaglen Newid, yn cynnwys bwletinau misol i'r staff.

Asesiad effaith ar gydraddoldeb (AEG)

12. Nid yw'n berthnasol.